# Sut i greu Cenhinen Pedr sydd yn troelli



Fe fydd angen:
*:: cerdyn melyn (neu wyn, gyda phaent melyn):: cerdyn gwyrdd*
*:: bocs wyau*
*:: pin wedi ei hollti (split pin)*
*:: paent oren a melyn*
*:: brwsh paent bach*
*:: staplwr*
*:: pren mesur*
*:: pensil*
*:: siswrn*

1



Dechreuwch drwy dorri sgwâr o'r cerdyn melyn. (Os mai dim ond cerdyn gwyn sydd gennych chi, gallwch baentio'r cerdyn yn felyn. Fe fydd angen i chi baentio'r ddwy ochr.)

Nesaf, torrwch y darn siâp cwpan allan o'r bocs wyau – dyma fydd trwmped eich Cenhinen Pedr. Paentiwch y cwpan naill ai yn felyn neu yn oren. Dyma fydd canol eich blodyn

I greu eich blodyn, plygwch 4 o'r ochrau (fel sydd yn cael ei ddangos isod). Staplwch y darnau i'w cadw yn eu lle.

2





3 Crëwch goesyn ar gyfer eich Cenhinen Pedr gan rolio darn o gerdyn gwyrdd, gan greu siâp tiwb.

4



Defnyddiwch pin wedi ei hollti i gysylltu'r bocs wyau, y blodyn, a'r coesyn at ei gilydd. Efallai y byddai'n haws i chi greu twll, cyn rhoi'r pin trwyddo gan ddefnyddio pensil. Gofynnwch i oedolyn i'ch helpu. Mae angen i'r twll i fod yn ddigon mawr fel bod eich Cenhinen Pedr yn gallu troelli yn y gwynt.